


# Adroddiad Blynyddol Drafft y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ar gyfer 2024/25

Ebrill 2025



Digital Regulation Cooperation Forum



# Cynnwys

3	Rhagair y Prif Swyddog Gweithredol
4	Myfyrdodau'r Cadeirydd
5	Cyflwyniad i'r Fforwm
6	Gweledigaeth tair blynedd 2024-2027
8	Uchafbwyntiau'r flwyddyn
9	Allbynnau allweddol y Fforwm drwy gydol y flwyddyn
10	<b>Datgloi Arloesedd Digidol a Thwf Economaidd</b>
10	Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol
11	Ymchwil Sicrwydd Deallusrwydd Artiffisial (AI)
12	Ymchwil Mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial
12	Diogelu Data a Chystadleuaeth
14	<b>Rhagweld Datblygiadau yn y Dyfodol</b>
14	Sganio'r Gorwel
16	<b>Diogelu a Grymuso Pobl Ar-lein</b>
16	Twyll a Sgamiau
17	Deallusrwydd Artiffisial
17	Asedau Digidol
18	Pensaernïaeth Dewis Ar-lein
18	Datganiad ar y cyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ar Ddiogelwch Ar-lein a Diogelu Data
19	<b>Cefnogi Effeithiolrwydd Rheoleiddwyr</b>
19	Denu Talent a Datblygu Sgiliau
19	Technolegau Goruchwyllo
20	<b>Arwain Trafodaethau yn y Wlad Hon ac yn Rhyngwladol</b>
20	Diwydiant a chymdeithas sifil y DU
21	Y Llywodraeth a'r Senedd
22	Ymgysylltu Rhyngwladol
24	Casgliad

## Rhagair y Prif Swyddog Gweithredol

A hithau bron yn bumed pen-blwydd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, mae'n rhyfeddol pa mor ddwfn yw ei wreiddiau yng ngwead gweithgareddau rheoleiddio digidol ein haelodau. Mae hyn wedi dod yn amlycach fyth wrth i'n haelodau ganolbwyntio mwy ar ddeallusrwydd artiffisial a gweithredu deddfwriaeth ddigidol newydd, yn enwedig Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 a Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024. Mae deialog rhwng y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn hanfodol er mwyn hwyluso cysondeb ac effeithlonrwydd rhwng eu gweithgareddau.



Eleni, rydym wedi cymryd camau breision o ran gweithredu ein gweledigaeth tair blynedd, gan ragori ar y disgwyliadau yn ein Cynllun Gwaith. Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i **ddatgloi arloesedd digidol a thwf economaidd**, gan gynnwys drwy ein prosiect blaenllaw, cynllun peilot yr Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol, a helpodd arloeswyr i ddelio â'r dirwedd reoleiddio. Rydym wedi **diogelu a grymuso pobl ar-lein** drwy gydweithio i fynd i'r afael â thwyll a sgamiau yn ogystal â chydweithio ar lywodraethu deallusrwydd artiffisial cyfrifol. Rydym wedi **cefnogi effeithiolrwydd rheoleiddwyr**, er enghraifft drwy rannu gwybodaeth a phrofiadau ar fabwysiadu offer deallusrwydd artiffisial yn ogystal â chynnal rhaglen wych o weminarau i staff rheoleiddio. Rydym wedi **arwain trafodaethau domestig a rhyngwladol**, yn enwedig drwy drefnu ein digwyddiad ym mis Mawrth 2025 ar Orwelion Digidol ym Manceinion a'r digwyddiad Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol Cyfrifol yn Llundain; arwain y Rhwydwaith Rhyngwladol ar Gydweithio Rheoleiddiol Digidol; a gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i gyd-arwain trafodaethau rhyngwladol ar gydweithio rheoleiddiol. Ac mae ein rhaglen sganio'r gorwel wedi **rhagweld datblygiadau yn y dyfodol** a'u goblygiadau rheoleiddiol posibl, gan fod o fudd i'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm, yn ogystal â diwydiant, llywodraeth, cymdeithas sifil ac eraill drwy ei hymchwil ofalus i hunaniaeth ddigidol, cyfryngau synthetig a thechnolegau cwantwm.

Mae'r gyfres fawr hon o lwyddiannau'n brawf o weledigaeth, egni a gwaith caled llawer o bobl. Ni fyddai'r Fforwm yn ffynnu heb gyfraniad llawer o staff rheoleiddio, o gymorth strategol Prif Swyddogion Gweithredol ac uwch arweinwyr, i gydweithrediad a diwydrwydd timau prosiect a rhwydweithiau ymgysylltu, i'r rheini – yn enwedig yn Ofcom – sy'n darparu cymorth craidd swyddfa gefn. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r grŵp bach o Gyfarwyddwyr y Fforwm a'u timau am reoli'r rhyngwyneb cymhleth rhwng y Fforwm a phob rheoleiddiwr; yn ogystal â'r 16 aelod o dîm craidd y Fforwm sy'n ymgorffori gwerthoedd y Fforwm **Cydweithrediad, Cynhwysiad, Uchelgais ac Ystwyther** i sicrhau llwyddiant y Fforwm.

Kate Jones,  
Prif Swyddog Gweithredol, y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

## Myfyrdodau'r Cadeirydd

Mae hi'n amlwg ein bod yn byw drwy gyfnod o drawsnewid technolegol dwys. Mae deallusrwydd artiffisial, arloesedd digidol a gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddata yn parhau i siapio'r economi, diwydiant a chymdeithas a hynny'n gyflymach nag erioed o'r blaen. Fel rheoleiddwyr, rydym yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod y datblygiadau hyn yn dod â manteision i bawb, gan liniaru'r risgiau ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed ar yr un pryd. Drwy'r Fforwm, rydym wedi cryfhau'r cydweithio ar draws cylchoedd gwaith rheoleiddio, gan sicrhau bod busnesau a defnyddwyr yn gallu delio'n ddiogel ac yn hyderus â'r dirwedd ddiigidol sy'n esblygu.



Mae cynllun peilot Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol y Fforwm wedi bod yn uchafbwynt allweddol, gan dorri tir newydd o ran sut gall rheoleiddwyr ddod ynghyd i bontio ein cylchoedd gwaith rheoleiddio, rhoi eglurder i fusnesau a gwneud gwahaniaeth pendant o ran sut mae diwydiant yn dod â'u cynnyrch a'u gwasanaethau i'r farchnad. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi croesawu'r cyfle hwn i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill yn y gofod hwn, gan ddefnyddio ein profiad helaeth, fel y dangoswyd drwy ein dathliad diweddar o [10 mlynedd o wasanaethau arloesi'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol](#).

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dechrau gweithredu gweledigaeth tair blynedd y Fforwm. Mae'r weledigaeth yn nodi ein hymrwymiad ar y cyd i ddiogelu ac i rymuso pobl yn eu defnydd o wasanaethau digidol law yn llaw â datgloi twf economaidd ar draws economi ddiigidol y DU. Mae'r weledigaeth wedi bod yn sbardun i'n holl waith eleni. Mae ein prosiect deallusrwydd artiffisial wedi ymchwilio i ddealltwriaeth reoleiddiol o gysyniadau fel tegwch a thryloywder, er mwyn deall yn well sut gellir gwreiddio'r egwyddorion hyn yn y dechnoleg a diogelu defnyddwyr. Ar yr un pryd, mae'r prosiect hefyd wedi cysylltu â'r diwydiant i ddysgu beth yw'r ffordd orau i reoleiddwyr gefnogi datblygiad a thwf marchnad sicrwydd deallusrwydd artiffisial.

Rydym yn cydnabod nad yw busnesau na defnyddwyr yn gweithredu o fewn ffiniau cenedlaethol yn unig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ehangu ein hymgysylltiad â chymheiriaid byd-eang. Drwy gryfhau cydweithrediad trawsffiniol, ein nod yw sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn arweinydd o ran gosod safonau rheoleiddio uchel ar yr un pryd â meithrin amgylchedd sy'n denu buddsoddiad ac arloesedd.

Mae hi wedi bod yn ffrainc bod yn Gadeirydd y Fforwm yn ystod cyfnod mor allweddol ar gyfer rheoleiddio digidol, a hoffwn ddiolch o galon i Kate Jones am ei harweinyddiaeth ragorol drwyddi draw. Mae'n bleser gennyf drosglwyddo rôl y Cadeirydd i Sarah Cardell. O dan ei harweinyddiaeth, bydd cenhadaeth y Fforwm yn parhau'n glir: cefnogi arloesedd technolegol cyfrifol, diogelu pobl ar-lein, a galluogi busnesau i ffynnu.

Nikhil Rathi  
Prif Weithredwr, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Cyflwyniad i'r Fforwm

Mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn dod â phedwar o reoleiddwyr y DU at ei gilydd i gyflwyno dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein. Rydym yn fforwm gwirfoddol ar gyfer cydweithio sy'n galluogi rheoleiddwyr i ymgysylltu ar feysydd polisi digidol sydd o ddiddordeb i bawb. Mae nodau ac amcanion y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol wedi'u nodi yn ein cylch gorchwyl.<sup>1</sup>

Dyma ein haelodau:

- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)

---

<sup>1</sup> [www.drctf.org.uk/siteassets/drctf/home/drctf-terms-of-reference.pdf?v=379416](https://www.drctf.org.uk/siteassets/drctf/home/drctf-terms-of-reference.pdf?v=379416)

# Gweledigaeth tair blynedd 2024-2027

Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Fforwm ar gyfer y flwyddyn 2024/25, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Gwaith 2025/26. Mae'n nodi sut roddem wedi gweithredu'r weledigaeth tair blynedd a sefydlwyd yn ein Cynllun Gwaith 2024/25:




Mae'r weledigaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredin ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i ddiogelu ac i rymuso defnyddwyr deallusrwydd artifisial a phobl ar-lein, gan ddatgloi arloesedd digidol a meithrin twf economaidd. Mae'n mynegi ein hymrwymiad cyffredin i wella effeithiolrwydd rheoleiddiol, arwain trafodaethau ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol a pharatoi am ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi categorioedd ein hallbynnau drwy gyfeirio at eu prif sbardun o'r weledigaeth hon. Serch hynny, mae llawer o'n hallbynnau yn chwarae rhan allweddol o ran cyflawni mwy nag un rhan o'n gweledigaeth. Yn y bôn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl waith yn meithrin arloesedd a chynnydd economaidd mewn ffordd sy'n ddiogel, yn deg ac yn gyfrifol.

## Gwerthoedd

Eleni, gyda mewnbwn gan ein tîm a'n rheoleiddwyr, fe wnaethom ddatblygu set o werthoedd y Fforwm i siapio hunaniaeth a llwyddiant hirdymor y Fforwm:



## Cydweithrediad

Darparu amgylchedd cadarnhaol i dimau rhwng rheoleiddwyr weithio gyda'i gilydd, mynd i'r afael â materion a darparu datrysiadau llwyddiannus ym maes rheoleiddio digidol.

## Cynhwysiad

Harneisio amrywiaeth rheoleiddio fel ein cryfder craidd yn ogystal â sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, fel ein bod yn parhau i fod yn lle gwyb i weithio ochr yn ochr â chyflawni canlyniadau o ansawdd uchel.

## Uchelgais

Defnyddio ein hymchwil, ein gwelededd a'n dull 'gallu gwneud' i greu enw da am ragoriaeth a pharhau i fynd ar drywydd cyfleoedd newydd ar gyfer rheoleiddio digidol integredig.

## Ystwyther

Hybu diwylliant o ddysgu a thwf sy'n grymuso aelodau ein tîm i fod yn rhagweithiol ac yn greadigol, gan feddu ar y gallu i groesawu newidiadau a datblygiadau.

Mae gwerthoedd y Fforwm yn egwyddorion arweiniol i wneud penderfyniadau ac yn gwneud y gorau o'n ffyrdd o weithio, gan sicrhau cysondeb a chynnal uniondeb.

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Mae gwaith y Fforwm i sicrhau cysondeb rhwng cylchoedd gwaith rheoleiddio, hwyluso dysgu ar y cyd a rhannu gwybodaeth wedi dod â manteision uniongyrchol i reoleiddwyr, i ddiwydiant ac i'r gymdeithas ehangach. I reoleiddwyr, mae rhannu dysgu ac arferion gorau yn golygu y gallwn fod yn fwy effeithiol o ran diogelu pobl rhag niwed digidol a deallusrwydd artifffisial, a chefnogi a hybu cyfleoedd i arloesi yn well. Drwy gynnal ymchwil gyda'n gilydd, gallwn sicrhau arbedion ariannol i bob un o'n haelodau. I ddiwydiant, mae mynd i'r afael â rhwystrau ymddangosiadol ar y cyd ac egluro disgwyliadau rheoleiddio yn helpu i leihau costau beichus cydymffurfio. Mae darlun o'n heffaith ar gael isod.

## DOD Â'N RHEOLEIDDWYR YNGHYD I GYSYLLTU AG YSTOD EANG O RANDDEILIAID GYDAG UN LLAIS



3.1 miliwn o 'argraffiadau' ar LinkedIn



9 o Astudiaethau Achos yr Hyb wedi'u Cyhoeddi



Dros 400 o fynychwyr

**Deall Tirwedd Rheoleiddio Digidol y DU**  
Mewn partneriaeth â TechUK

Drwy Gefnogi Arloeswyr drwy'r Hyb Deallusrwydd Artifffisial a Digidol a Threfnu Digwyddiadau Mawr i fynd i'r afael â Materion yn y Maes Deallusrwydd Artifffisial a Digidol



200 o fynychwyr

**Fforwm Deallusrwydd Artifffisial Cynhyrchiol Cyfrifol**  
Y prif siaradwyr yn cynnwys Benedict Evans, Yoel Roth and Verity Harding

"Rydw i wir yn teimlo bod cynnig gwasanaeth y Fforwm yn ychwanegu gwerth, hygrededd a hyfywedd gwell i'r entrepreneuriaid hynny sy'n lansio neu'n tyfu modelau busnes sy'n defnyddio technolegau digidol a deallusrwydd artifffisial."



Dros 120 o fynychwyr

**Y Gorwel Digidol: Cyfleoedd a Heriau Technolegau Datblygol**  
Mewn partneriaeth â Phrifysgol Salford a Dock10

Alex Cole,  
Entrepreneur a Sylfaenydd TIN Ventures

## Mae'r Fforwm yn parhau i gyflawni ar gyfer y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ohono



Rydym yn gweld mwy o gyfeiriadau at y Fforwm a'i gyhoeddiadau ar draws y gymuned dechnoleg



Mae cydweithio'n gyson yn arbed arian i'n haelodau: mae ein hymchwil ar y cyd i ddeallusrwydd artifffisial yn unig yn debygol o arbed **£200k** i bob rheoleiddiwr



### Cyhoeddiadau effaith uchel:

- Gwella ein dealltwriaeth ar y cyd o ddefnydd defnyddwyr o ddeallusrwydd artifffisial cynhyrchiol
- Edrych ar ddyfodol Hunaniaeth Ddigidol a Chyfyngau Synthetig
- Datganiad ar y cyd sy'n nodi cydweithrediad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth/Ofcom wrth reoleiddio gwasanaethau ar-lein



# Allbynnau allweddol y Fforwm drwy gydol y flwyddyn

Lsod, rydym yn nodi'r gwaith mae'r Fforwm wedi'i wneud yn 2024/25, sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n cynnwys dau neu ragor o gyrff rheoleiddio sy'n aelodau. Ers sefydlu'r Fforwm bum mlynedd yn ôl, rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau, ar draws sawl maes gwaith a phob haen o weithgareddau. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi cryfhau i sicrhau cysondeb wrth weithredu deddfwriaeth ddigidol newydd. Mae'r diwylliant hwn o rannu gwybodaeth ac ymgysylltu yn meithrin cydweithrediad rheoleiddiol parhaus y tu hwnt i gylch pendant y Fforwm. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol o'r ymgysylltu a'r gweithgareddau hyn a wneir ar y cyd, ni chaiff hyn ei gofnodi'n gynhwysfawr isod.

Mae ein holl aelodau'n gweithredu i gefnogi cenhadaeth twf y llywodraeth, sy'n cael ei ddangos gan bob rheoleiddiwr yn amlinellu ei weithgareddau a'i uchelgeisiau yn y maes hwn.<sup>2</sup> Mae enghreifftiau'n cynnwys yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn sbarduno cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol drwy ei drefn newydd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn hyrwyddo digideiddio'r sector ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gwneud hi'n gynt ac yn haws i fusnesau drosglwyddo data'n ddiogel yn rhyngwladol ac Ofcom yn darparu Gwasanaeth Cymorth Digidol i helpu busnesau bach a chanolig i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

---

2 Ofcom: [Llythyr agored Sut mae Ofcom yn cyfrannu at dwf y DU](#)  
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: [Ymateb Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r llywodraeth ar dwf economaidd | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)  
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol: [Llythyr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar ddull newydd o sicrhau bod rheoleiddwyr a rheoliadau'n cefnogi twf](#)  
Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd: [Cynllun Blyneddol 2025 i 2026 - GOV.UK](#)

# Datgloi Arloesedd Digidol a Thwf Economaidd

## Cyhoeddiadau Allweddol

[Ensuring Trustworthy AI: the Emerging AI Assurance Market | DRCF](#)

[AI Assurance: Highlighting opportunities across DRCF regulatory regimes | DRCF](#)

[DRCF Generative AI Adopters Roundtable: High-level Findings | DRCF](#)

[Understanding Consumer Use of Generative AI | DRCF](#)

[Harnessing Innovation and Growth Opportunities from AI Foundation Models | DRCF](#)

## Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol

Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom lansio'r Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol fel cynllun peilot 12 mis a ariennir gan y llywodraeth. Cafodd hyn ei ddatblygu o'r gwaith archwiliol a oedd yn edrych sut gallai'r Fforwm ei gwneud yn haws i arloeswyr lansio cynnyrch a gwasanaethau newydd gyda mantais eglurder rheoleiddiol. Roedd yr Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol wedi treialu gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth i arloeswyr, gan gynnig cyngor anffurfiol am ddim iddynt gan bob un o'n pedwar aelod ar ymholiadau traws-reoleiddiol. Ar ôl gwranddo am y tro cyntaf ar alwadau arloeswyr am ragor o wybodaeth am sut byddai rheoleiddio'n berthnasol i'w cynnyrch a'u gwasanaethau, dangosodd yr Hyb ymrwymiad y Fforwm i archwilio ac i ddarparu cymorth ymarferol i arloeswyr deallusrwydd artiffisial a digidol.

Mae'r cynllun peilot wedi dod i ben, gyda chynghor a chymorth anffurfiol i 17 o sefydliadau sy'n amrywio o fusnesau bach newydd i sefydliadau mawr sy'n datblygu amrywiaeth o ddatrysiadau sy'n cwmpasu amcangyfrif oedran, offer marchnata digidol deallusrwydd artiffisial, deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg data mewn lleoliad iechyd, ymysg eraill. Ar ben hynny, rydym yn falch o gyhoeddi 7 o astudiaethau achos dienw, a disgwylir dau arall ym mis Mai 2025, sy'n galluogi'r farchnad i elwa o'r cyngor anffurfiol a roddir yn yr Hyb. Ar wahân i'r cyngor anffurfiol a roddwyd, roedd yr Hyb wedi golygu ein bod wedi gallu cael darlun cliriach o sut mae arloeswyr yn profi'r dirwedd reoleiddio a'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt gan reoleiddwyr er mwyn lansio a thyfu eu cynnyrch.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwerthuso'r cynllun peilot i sicrhau ein bod wedi cofnodi'r holl wersi y mae wedi'u dysgu ac i benderfynu ar y ffordd orau i'r Fforwm gefnogi arloeswyr technoleg a digidol yn y dyfodol.

Mae rhanddeiliaid allanol wedi canmol yr Hyb am gynnig gwasanaeth hanfodol i arloeswyr. Er enghraifft, dywedodd y cylchgrawn Entrepreneur fod yr Hyb yn 'fenter ymarferol sy'n canolbwyntio ar weithredu'.<sup>3</sup>

---

3 [Rules Made Simple: How the DRCF Hub is Helping Entrepreneurs Stay Ahead | Entrepreneur](#)

## Astudiaethau Achos a Gyhoeddwyd

- [Diogelu data a chyfraith defnyddwyr ar gyfer busnesau sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial](#)
- [Rheoli effaith diffygion meddalwedd trydydd parti ar gadernid](#)
- [Hysbysebu cynigion ariannol](#)
- [Deallusrwydd Artiffisial a Fforymau Ar-lein: Deall diogelu data, diogelwch ar-lein a chyfraith defnyddwyr mewn fforymau trafod iechyd](#)
- [Awdurdodiadau ac ystyriaethau diogelu data'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gwmnïau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i helpu cynghorwyr ariannol](#)
- [Sicrhau sicrwydd oedran effeithiol iawn ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr](#)
- [Ceisiadau am gludadwyedd data gan gyfryngwyr data](#)

## Ymchwil Sicrwydd Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae'n bosibl i ddeallusrwydd artiffisial drawsnewid sut mae pobl yn cyfathrebu, yn creu, yn cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau ac yn rhyngweithio â'r byd. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r addewid hwn, rhaid ei ddatblygu a'i ddefnyddio'n gyfrifol, gan gydymffurfio'n llawn â'r cyfreithiau perthnasol. Mae'n bosibl i sicrwydd deallusrwydd artiffisial fod yn ffordd effeithiol o helpu i sicrhau hyn, ac mae ei ddefnydd yn y DU yn tyfu, ac amcangyfrifir bod sicrwydd deallusrwydd artiffisial eisoes yn cyfrif am 5-10% o gyfanswm gwariant busnesau ar ddeallusrwydd artiffisial.<sup>4</sup>

Er mwyn deall rhagor ar y dirwedd sicrwydd deallusrwydd artiffisial ac edrych sut gall ein haelodau gefnogi twf a datblygiad y farchnad mewn ffordd sy'n cyd-fynd â disgwyliadau rheoleiddio nawr ac yn y dyfodol, fe wnaethom gynnal adolygiad o'r sector a chyfweld â darparwyr gwasanaethau allweddol. Rydym yn nodi ein canfyddiadau yn ein herthygl ym mis Gorffennaf 2024, '[Ensuring Trustworthy AI: the Emerging AI Assurance Market](#)'.

Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gynnal gweminar a oedd yn dod ag arbenigwyr at ei gilydd i drafod y gwahanol fecanweithiau sy'n sail i sicrwydd deallusrwydd artiffisial. Roedd y paneli'n canolbwyntio ar y gwahanol fathau o safonau deallusrwydd artiffisial a fframweithiau diogelwch, sut gellir eu defnyddio, a sut gellir eu rhoi ar waith ochr yn ochr â'r rheoliadau presennol.

Ar ôl y weminar, fe wnaethon ni gyhoeddi '[Standardising AI Webinar | DRCF](#)' ym mis Ionawr 2025. Roedd yr erthygl hon yn manylu ar safbwyntiau pob un o'n haelodau ar ddisgwyliadau a chyfleodd mewn sicrwydd deallusrwydd artiffisial sy'n berthnasol i'w cylchoedd gwaith rheoleiddiol.

---

4 [Economic assessment of the AI assurance market - Frontier Economics Ltd .pdf](#)

## Ymchwil Mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, fe wnaethom sôn am ein bwrdd crwn i fabwysiadwyr Deallusrwydd Artiffisial. Ym mis Mai 2024, fe wnaethom wedyn gyhoeddi erthygl yn crynhoi'r trafodaethau yn y digwyddiad, '[DRCF Generative AI Adopters Roundtable: High-level Findings](#)'. Mae'r erthygl yn tynnu sylw at rai o'r pryderon allweddol i gwmnïau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

Bu cryn drafod ar gynyddu defnydd busnesau o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gyda Deloitte yn canfod bod dwy ran o dair o sefydliadau yn cynyddu eu buddsoddiadau yn y dechnoleg.<sup>5</sup> Felly, er mwyn gwella ein dealltwriaeth ymhellach o sut mae busnesau'n defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, a sut mae hyn yn rhyngweithio â threfniadau rheoleiddio, fe wnaethom gomisiynu ymchwil meintiol ychwanegol. Fe wnaethom arolygu 750 o ddatblygwyr a defnyddwyr deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gyda chynrychiolaeth iach ar draws sectorau marchnad yr economi, gan gynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom gyhoeddi ymchwil ar '[Understanding Consumer Use of Generative AI](#)'. Drwy gasglu data gan 4000 o ddefnyddwyr, ein nod oedd asesu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r dechnoleg, yn ogystal â chanfyddiadau o'i risgiau a'i manteision. Ar ben hynny, fe wnaethom geisio deall graddfa'r niwed sy'n deillio o wallau neu broblemau wrth ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae ein canfyddiadau'n dangos ymwybyddiaeth uchel, gyda 92% o'r ymatebwyr wedi clywed am ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a 75% wedi'i ddefnyddio neu wedi bod yn dyst i'w ddefnydd wrth chwilio. Er bod yr ymatebwyr wedi nodi manteision clir y dechnoleg fel cyflymder, ei bod ar gael yn hawdd ac yn hawdd ei defnyddio, mae 70% yn awyddus i weld datblygwyr yn gwneud mwy i atal offer rhag creu cynnwys niweidiol.

Mae gan bob un o'n haelodau ddiddordeb yn y ffordd mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio, gan fusnesau a defnyddwyr. Gall canlyniad yr ymchwil hwn eu helpu i ganfod ac i leihau rhwystrau rheoleiddiol i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial, er mwyn sicrhau bod manteision y dechnoleg yn cael eu teimlo'n gyflym ar draws yr economi.

## Diogelu Data a Chystadleuaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dal i gydweithio er mwyn hyrwyddo eu hamcanion o ran diogelu data, defnyddwyr a chystadleuaeth.

Roedd llawer o gydweithio wedi parhau dros 2024/25 mewn perthynas â datblygiadau'r farchnad hysbysebu ar-lein.

---

5 [us-state-of-gen-ai-q3.pdf](#)

Drwy gydweithio, mae'r ddau reoleiddiwr wedi ceisio sicrhau bod cystadleuaeth a phreifatrwydd yn cael eu diogelu. Wrth galon y gwaith hwn roedd monitro effeithiolrwydd ymrwymadau Blwch Tywod Preifatrwydd Google i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. [Mae diweddariadau ar y gwaith hwn wedi cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn](#). Roedd y gwaith ymgysylltu rhwng y rheoleiddwyr ar ddatblygiadau ehangach i'r farchnad hysbysebu ar-lein hefyd wedi digwydd yn ystod 2024/25, gan gynnwys wrth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddatblygu ei chanllawiau i sefydliadau sy'n ystyried modelau 'cydsyniad neu dâl'.

Mae'r cydweithredu hefyd wedi canolbwyntio ar fodolau sylfaen – gan archwilio sut mae'r rhyngweithio rhwng ein cylch gwaith rheoleiddio cystadleuaeth, diogelu defnyddwyr a diogelu data yn berthnasol i ddatblygwyr ac i weithredwyr deallusrwydd artifisial. Daeth hyn i'r amlwg wrth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gyhoeddi erthygl ar [Harnessing Innovation and Growth Opportunities from AI Foundation Models](#) ym mis Mawrth 2025 yn nodi eu barn ar y cyd bod eu trefniadau yn cefnogi dulliau mynediad agored a mynediad caeedig i ryddhau modelau sylfaen. Byddant yn parhau i weithio gyda'i gilydd lle mae eu trefniadau rheoleiddio'n croestorri yng nghyswllt ymchwiliadau parhaus i'r farchnad ddigidol (ecosystemau chwilio a symudol ar hyn o bryd) a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall (fel mynediad at ddata; rhannu data a'r gallu i rhyngweithredu; a dewis a rheolaeth defnyddwyr).

# Rhagweld Datblygiadau yn y Dyfodol

## Cyhoeddiadau Allweddol

[Exploring the Future of Digital Identity - DRCF Findings | DRCF](#)

[The Future of Synthetic Media | DRCF](#)

[The Quantum Landscape in 2024: A Year of Progress and DRCF Reflections | DRCF](#)

## Sgano'r Gorwel

Mae swyddogaeth sgano'r gorwel y Fforwm yn dod â'r pedwar rheoleiddiwr at ei gilydd i nodi cyfleoedd a manteision, risgiau a goblygiadau rheoleiddiol posibl technolegau datblygol, gan wella cyd-ddealltwriaeth ac arwain ymatebion strategol yn y meysydd hyn. Mae deall technolegau'r dyfodol a'u heffaith ar gymdeithas a'r economi yn hanfodol er mwyn grymuso ein haelodau i sbarduno arloesedd. Drwy aros ar flaen y gad o ran datblygiadau technolegol a thueddiadau arloesi, gallwn ddod o hyd i gyfleoedd newydd ar yr un pryd â mynd i'r afael yn rhagweithiol ag unrhyw heriau y gallant eu cyflwyno.

Eleni, mae ein gwaith sgano'r gorwel wedi canolbwyntio ar hunaniaeth ddigidol; cyfryngau synthetig; cwantwm; uwch-apiau; a chyllid agored.

Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi erthygl '[Exploring the Future of Digital Identity - DRCF Findings](#)' a chynnal gweminar yn dilyn hynny. Fe wnaethom ymgorffori gwybodaeth gan arbenigwyr mewnol ac allanol i edrych ar y datblygiadau a'r ffyrdd posibl o ddefnyddio hunaniaeth ddigidol a thynnu sylw at oblygiadau rheoleiddio posibl y dechnoleg.

Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom gyhoeddi papur '[The Future of Synthetic Media](#)' a oedd yn nodi sut gallai cyfryngau synthetig ddatblygu a chael eu defnyddio yn y dyfodol agos, a'u harwyddocâd rheoleiddiol posibl. Roedd y canfyddiadau'n seiliedig ar drafodaethau ag amrywiaeth eang o arbenigwyr, gan gynnwys rheoleiddwyr nad ydynt yn rhan o'r Fforwm, llywodraeth, diwydiant, y byd academiaidd a chymdeithas sifil. Roedd yr adroddiad yn nodi meysydd allweddol o gyfleoedd a risg i helpu i sicrhau arloesedd cyfrifol, ac roedd yn edrych ar rôl rheoleiddwyr yn y dyfodol o ran sicrhau bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio'n ddiogel.

Ar ôl ein gwaith yn 2023 ar dechnolegau cwantwm, ym mis Rhagfyr 2024 fe wnaethom gyhoeddi erthygl '[The Quantum Landscape in 2024: A Year of Progress and DRCF Reflections](#)' a oedd yn edrych ar ddiweddariadau allweddol yn y sector a'u goblygiadau i reoleiddwyr. Roedd yr erthygl yn crynhoi sut mae ein haelodau wedi parhau i ymgysylltu a meithrin eu dealltwriaeth o dechnolegau cwantwm yn eu cylchoedd gwaith rheoleiddiol.

Mae ein gwaith ar dechnolegau cwantwm yn dal i gael effaith barhaol y tu hwnt i'r Fforwm: er enghraifft, mae ein mewnbwn i adolygiad Rheoleiddio Cyngor Horizon ar reoleiddio ffyrdd o ddefnyddio technoleg cwantwm wedi cyfrannu at y Swyddfa Cwantwm yn lansio Fforwm y Rheoleiddwyr Cwantwm yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu â'r Swyddfa Cwantwm a'r Fforwm.

Gan adeiladu ar ein cyhoeddiadau ar hunaniaeth ddigidol, cyfryngau synthetig, a thechnolegau cwantwm, ar 18 Mawrth 2025, fe wnaethom ddwyn ynghyd ystod eang o siaradwyr arbenigol o feysydd rheoleiddio, cymdeithas sifil a diwydiant i edrych ar sut gall rheoleiddwyr groesawu'r technolegau a'r tueddiadau pwysicaf yn y dyfodol. Fe wnaethom gynnal y digwyddiad yn Salford, Manceinion Fwyaf i ddefnyddio'r gymuned technoleg ddatblygol yng nngogledd Lloegr a rhanbarthau cyfagos.

Bydd dwy erthygl sganio'r gorwel arall yn cael eu cyhoeddi'r haf hwn, un yn edrych ar ddyfodol marchnad uwch-apiau'r DU, ac un yn edrych ar rai o'r seiliau technegol posibl a allai gefnogi ecosystem Cyllid Agored amrywiol.

# Diogelu a Grymuso Pobl Ar-lein

## Cyhoeddiadau Allweddol

[Tackling Online Fraud and Scams: Ofcom and FCA Collaboration | DRCF](#)

[Sharing personal information when preventing, detecting and investigating scams and frauds | ICO](#)

[Fairness in AI: A View from the DRCF | DRCF](#)

[AI Transparency: DRCF Perspectives | DRCF](#)

[Consumer attitudes on the risks and benefits of engaging with digital assets | DRCF](#)

[Understanding Online Choices, Preferences, and Welfare | Ofcom](#)

[Datganiad ar y Cyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Gydweithio ar Reoleiddio Gwasanaethau Ar-lein | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

## Twyll a Sgamiau

Mae twyll a sgamiau yn risgiau allweddol i ddefnyddwyr yn y byd digidol. Canfu ymchwil a gynhaliwyd ar ran Ofcom fod 87% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngwrdd wedi dod ar draws cynnwys ar-lein yr oeddent yn credu ei fod yn sgam neu'n dwyll,<sup>6</sup> gyda llawer ohonynt yn dioddef niwed hirdymor sy'n fwy na'r gost ariannol uniongyrchol, sy'n aml yn niweidio ymddiriedaeth a chyfranogiad digidol.

Mae'n bwysig i'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm bod twyll yn cael ei atal a bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel ar-lein. Mae Ofcom a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi bod yn gweithio'n agos i nodi achosion o orgyffwrdd yn y maes hwn, rhwng rhwymedigaethau llwyfannau o dan y drefn diogelwch ar-lein a deddfwriaeth gwasanaethau ariannol, ac i ddefnyddio arbenigedd ei gilydd.

Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gynnal gweminar fewnol yn canolbwyntio ar gynigion ariannol ar-lein anghyfreithlon. Roedd yn gyfle i addysgu cydweithwyr am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gynnig ariannol anghyfreithlon ar-lein, pwerau Ofcom o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, a sut mae Ofcom a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn gweithio gyda'i gilydd.

Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom gyhoeddi erthygl '[Tackling Online Fraud and Scams: Ofcom and FCA Collaboration](#)' yn amlinellu sut mae'r ddau reoleiddiwr wedi ymgysylltu hyd yma a sut maent yn bwriadu cydweithio yn y dyfodol i sicrhau gwell amddiffyniadau rhag twyll a sgamiau. Roedd yr erthygl hon yn cyd-daro'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi cyngor ymarferol ar '[Sharing personal information for the prevention, detection and investigation of scams and fraud](#)'.

---

6 [www.ofcom.org.uk/online-safety/online-fraud/scale-and-impact-of-online-fraud-revealed/](http://www.ofcom.org.uk/online-safety/online-fraud/scale-and-impact-of-online-fraud-revealed/)



Roedd y cyngor hwn wedi'i anelu at sefydliadau yn y sector preifat ar draws yr economi ddigidol (fel gwasanaethau ariannol, telegyfathrebiadau a llwyfannau digidol), gan egluro nad yw cyfraith diogelu data yn atal sefydliadau rhag rhannu gwybodaeth bersonol i atal twyll a sgamiau, os ydynt yn gwneud hynny mewn ffordd gyfrifol, deg a chymesur.

## Deallusrwydd Artiffisial

Mae ein gwaith sy'n canolbwyntio ar ddeallusrwydd artiffisial wedi'i gynllunio'n ofalus i gydfynd â'n holl amcanion – hyrwyddo twf ac arloesedd, diogelu pobl ar-lein a chefnogi galluoedd rheoleiddio. Er bod y gweithgareddau a amlinellir isod yn cyfrannu at yr holl nodau hyn, y peth pwysicaf yw ein cefnogaeth i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol.

Yn ogystal â'n hymchwil ar y cyd ar sicrwydd deallusrwydd artiffisial a mabwysiadu deallusrwydd artiffisial (a drafodir uchod), eleni fe wnaethom adeiladu ar ein gweithdy blaenorol ar [degwch](#), gan archwilio [tryloywder](#) mewn deallusrwydd artiffisial. Roedd y gweithdai'n gyfle i'n haelodau nodi meysydd o orgyffwrdd o ran eu dealltwriaeth o'r egwyddorion hyn er mwyn helpu i sicrhau gwell amddiffyniad rhag niwed sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ofgem a Banc Lloegr wedi cymryd rhan yn ein gwaith o edrych ar dryloywder deallusrwydd artiffisial.

Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethom gynnal Fforwm Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol Cyfrifol y Fforwm i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd sydd â diddordeb mewn datblygu deallusrwydd artiffisial cyfrifol. Roedd y digwyddiad wedi denu dros 140 o bobl o ddiwydiant, cymdeithas sifil, y byd academiaidd, llywodraeth a rheoleiddwyr. Fe wnaethom ddangos sut mae rheoleiddwyr yn cefnogi arloeswyr i ddod â chynnyrch a gwasanaethau newydd i'r farchnad, gan sicrhau hefyd bod defnyddwyr a dinasyddion yn cael eu diogelu rhag niwed a bod manteision y dechnoleg yn cael eu teimlo ar draws yr economi. Roedd hyn yn gyfle gwerthfawr i'n haelodau gryfhau eu perthynas â rhanddeiliaid allanol ac ymgysylltu â thrafodaethau sy'n procio'r meddwl. Roedd y sgysiau hyn yn edrych ar sut mae eu cylchoedd gwaith rheoleiddio unigol a chyfunol yn rhyngweithio â deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, yn ogystal ag archwilio galluoedd a chyfyngiadau ehangach y dechnoleg.

## Asedau Digidol

Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cyhoeddi ymchwil ar '[Consumer attitudes on the risks and benefits of engaging with digital assets](#)' yn unol â chynllun gwaith 24/25. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ar y cyd o agweddau a rhyngweithio defnyddwyr ag asedau digidol ac mae'n helpu i gefnogi dull rheoleiddio gwybodus, o safbwynt rheoleiddio ariannol a diogelu data.

## Pensaerniaeth Dewis Ar-lein

Mae'r Fforwm wedi cynnull y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ohono i rannu gwybodaeth am y maes hanfodol hwn i ddiogelu defnyddwyr, ac mae ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau wedi cydweithio i sicrhau cysondeb parhaus pan fydd rheoliadau'n gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cyhoeddi papur safbwynt ar y cyd ar ['Harmful Design in Digital Markets'](#), ac mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi cydweithio'n agos ar faes y croestoriad rhwng Cod Dylunio Addas i Oed Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gwaith rheoleiddio Ofcom ar lwyfannau rhannu fideos.

Mae gwaith diweddar ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ar bensaerniaeth dewis ar-lein yn arwyddocaol i'r Fforwm fel grŵp o reoleiddwyr o ran parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r niwed, y risgiau a'r ymyriadau posibl er budd defnyddwyr y rhyngwyd. Er enghraifft, mae gwaith diweddar Ofcom ar ['Deall Dewisiadau Ar-lein, Hoff Ddewisiadau a Lles'](#) wedi torri tir newydd o ran trafod ymyriadau rheoleiddio posibl i gefnogi dewis defnyddwyr. Fel y mae papur Ofcom yn ei bwysleisio, mae'n werthfawr iawn bod rheoleiddwyr yn cydlynu eu dulliau gweithredu ar gyfer ymyriadau grymuso defnyddwyr, er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu llethu gan ddewisiadau a bod ymyriadau'n parhau i fod yn effeithiol.

## Datganiad ar y cyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ar Ddiogelwch Ar-lein a Diogelu Data

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau bod tirwedd reoleiddio glir a chydlynol ar gyfer gwasanaethau ar-lein. Eu nodau yw sicrhau'r cydlyniad mwyaf rhwng y cyfundrefnau diogelwch ar-lein a diogelu data a hyrwyddo cydymffurfedd o fewn y diwydiant. Mae'r nodau hyn yn helpu i sicrhau eglurder rheoleiddiol, a fydd yn cefnogi arloesedd, ac yn galluogi twf economaidd parhaus.

Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom [ddatganiad ar y cyd](#) am gydweithio ar reoleiddio gwasanaethau ar-lein. Mae'r datganiad yn nodi sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin i sicrhau dull gweithredu cydlynol ar gyfer rheoleiddio.

Mae'r naill reoleiddiwr a'r llall wedi ymgysylltu'n agos ar ddatblygu cynnyrch rheoleiddio ei gilydd i sicrhau cysondeb rhwng diogelwch ar-lein a chyfraith diogelu data; er enghraifft, ymgynghorwyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy gydol y broses o ddatblygu codau ymarfer a chanllawiau diogelwch ar-lein Ofcom.

# Cefnogi Effeithiolrwydd Rheoleiddwyr

## Denu Talent a Datblygu Sgiliau

Drwy gydol blwyddyn ariannol 2024-25, rydym wedi cynnal sesiynau uwchsgilio i staff ar draws y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau dan arweiniad rheoleiddwyr unigol, fel yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cyflwyno ar y Ddyletswydd i Ddefnyddwyr, ochr yn ochr â thrafodaethau sy'n tynnu sylw at ymchwil y Fforwm, gan gynnwys ar sicrwydd deallusrwydd artiffisial a hunaniaeth ddigidol. Rydym hefyd wedi gwahodd rhanddeiliaid allanol i gynnal sesiynau, gan gynnwys cyfres o weminarau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar bynciau fel sut mae Asesiadau Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial a thechnolegau digidol. Ar ben hynny, buom yn cydweithio â Chymdeithas Ryngwladol y Gweithwyr Proffesiynol Preifatrwydd a'r Gynghrair ar gyfer Tarddiad Cynnwys a Dilysrwydd i roi cyflwyniadau ac i arwain trafodaethau. Dros y flwyddyn, mae dros 1000 o bobl wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

Eleni, rydym wedi parhau i adeiladu ar ein cynllun traws-reoleiddwyr i raddedigion, gan secondio graddedigion rhwng cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ac i mewn i'r Fforwm ei hun. Mae'r cynigion hyn i raddedigion yn helpu ein talent newydd i ennill gwybodaeth am nifer o reoleiddwyr a threfniadau rheoleiddio digidol, yn ogystal â chadarnhau ein cysylltiadau traws-reoleiddiol ymhellach.

Yn ddiweddar, rydym wedi lansio Rhaglen Mentora Sgiliau Digidol mewn partneriaeth â UKRN. Bydd y rhaglen yn hybu rhannu arbenigedd a sgiliau digidol, o natur dechnegol a pholisi, rhwng ein cyrff rheoleiddio sy'n aelodau.

## Technolegau Goruchwyllo

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial yn argymhell bod rheoleiddwyr yn 'uwchsgilio' yn eu galluoedd deallusrwydd artiffisial, ac yn dilyn dull Sganio, Treialu, Tyfu o fabwysiadu deallusrwydd artiffisial. Gan fod pob un o'n cyrff rheoleiddio sy'n aelodau eisoes wedi teithio'n bell ar hyd y llwybr hwn, fel Fforwm rydym wedi defnyddio'r dactonomeg hon i gategoreiddio sut mae pob un o'n haelodau'n defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i helpu ei swyddogaethau mewnol. Mae'r gwaith hwn wedi galluogi'r tîm i rannu gwybodaeth yn fewnol am gostau, buddion a risgiau defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, ac i nodi synergeddau lle gall y grŵp ddod ynghyd yn y dyfodol.

Drwy barhau i gydweithio, ein nod yw datrys yr heriau cyffredin rydym yn eu hwynebu ar y cyd wrth ddefnyddio technolegau newydd, fel seiberddiogelwch, cyfyngiadau ar adnoddau a manteisio i'r eithaf ar y defnydd er mwyn gwireddu'r manteision yn llawn.

# Arwain Trafodaethau yn y Wlad Hon ac yn Rhyngwladol

Mae ymgysylltu'n dal yn ddimensiwn pwysig o waith y Fforwm, gan fod diddordeb eang yng ngweithgareddau'r Fforwm a'r cysylltiadau rhwng cylchoedd gwaith y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ohono. Yn rhyngwladol, mae'r angen cyffredin am gydlyniaeth mewn rheoleiddio digidol yn golygu bod cryn diddordeb o ran sut mae'r Fforwm yn cael ei sefydlu ac yn gweithredu, a sut mae rheoleiddwyr y Fforwm yn mynd i'r afael â materion traws-reoleiddiol yn ymarferol. O'n rhan ni, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol rhannu ein gweithgareddau â'r rheini sydd â diddordeb, ac i wrando ar brofiadau pobl eraill o reoleiddio digidol. Drwy hyn, rydym yn cynnal ein gwerthoedd o hyrwyddo ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol ar ein gwaith.

Mae ein trafodaethau wedi bod yn eang: yn ddomestig, gyda seneddwyr y DU, y llywodraeth, diwydiant a chynrychiolwyr, cymdeithas sifil a'r gymuned reoleiddio; yn rhyngwladol, gyda chymheiriaid rheoleiddio a sefydliadau amlochrog.

## Diwydiant a chymdeithas sifil y DU

Wrth i ni weld fwyfwy bod dull mwy cydgysylltiedig o lywodraethu rheoleiddiol digidol yn golygu bod aelodau o ddiwydiant, cymdeithas sifil ac eraill yn awyddus i ymgysylltu â ni a'r holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau gyda'i gilydd, gwnaethom ddechrau a gorffen y flwyddyn drwy gynnal digwyddiadau mawr. Ar ddechrau'r flwyddyn, cawsom ddigwyddiad i hyrwyddo lansio'r Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol ac i arddangos gweithgareddau'r Fforwm o'r flwyddyn flaenorol, buom yn gweithio mewn partneriaeth â techUK i gynnal digwyddiad ar 'Navigating the UK's Digital Regulation Landscape: Where are we headed?'. Roedd hwn yn ddigwyddiad hybrid a oedd yn canolbwyntio ar ein gwaith deallusrwydd artiffisial a'n gweithgareddau sganio'r gorwel yn ogystal â lansio'r Hyb. Roedd dros 400 o fynychwyr. Roedd y digwyddiad hwn yn un o bron i 70 o ddigwyddiadau y buom yn cymryd rhan ynddynt i hyrwyddo'r Hyb i arloeswyr ar draws y DU, gan sicrhau bod amrywiaeth eang o fusnesau'n gallu manteisio ar gymorth traws-reoleiddwyr pan fo angen.

Yn fwy diweddar, fe wnaeth y Fforwm osod y llwyfan ar gyfer digwyddiadau mawr yn Llundain a Manceinion, gan fanteisio ar ganolfannau'r DU ar gyfer deallusrwydd artiffisial a thechnoleg flaengar. Yn Nigwyddiad Gorwel Ddigidol Manceinion, ar y cyd â Phrifysgol Salford, daeth dros 100 o bobl at ei gilydd i drafod tueddiadau technolegol yn y dyfodol a chyfleoedd a heriau technoleg ddatblygol ym maes cwantwm, hunaniaeth ddigidol a chyfryngau synthetig. Yn ein fforwm ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol Cyfrifol yn Neuadd y Sir Llundain, roeddem wedi croesawu dros 140 o arbenigwyr y diwydiant, swyddogion y llywodraeth a'r gymdeithas sifil i drin a thrafod safbwyntiau rheoleiddiol a goblygiadau'r maes hwn sy'n datblygu'n gyflym.

Y tu hwnt i'r digwyddiadau mawr hyn, mae'r Fforwm wedi bod ar flaen y gad yn barhaus o ran arwain sgysiau am ddeallusrwydd artiffisial a thechnoleg ddigidol: er enghraifft, cyflwyno'r brif [araith](#) yn IAPP Data Protection Intensive London, cymryd rhan mewn trafodaethau panel yn yr AI Fringe, ac arwain panel yn Uwchgynhadledd Moeseg Ddigidol techUK.

Rydym wedi defnyddio'r llwyfannau hyn i dynnu sylw at oblygiadau rheoleiddiol mabwysiadu technolegau newydd, pwysigrwydd llywodraethu deallusrwydd artiffisial, a'r ffyrdd mae rheoleiddwyr y Fforwm yn cyfrannu at arloesi a thwf y DU. Roedd y Fforwm hefyd yn falch iawn o gael siarad mewn cynhadledd Menywod mewn Technoleg yng Ngŵyl Technoleg Manceinion, ac yn lansiad y rhwydwaith Menywod yn y Gyfraith a Data yn Llundain. Yn y naill ddiwyddiad a'r llall roeddem wedi pwysleisio'r angen am brofiadau amrywiol ym maes technoleg.

## Y Llywodraeth a'r Senedd

Mae'r Fforwm wedi parhau i weld cryn ddiddordeb gan y senedd Brydeinig yn ei waith a'i berthnasedd i feysydd polisi'r llywodraeth. Mae'r Fforwm yn darparu rhyngwyneb ategol gyda'r llywodraeth, ochr yn ochr â chysylltiadau pob rheoleiddiwr ei hun. Rydym yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, yn enwedig mewn perthynas â chynllun peilot yr Hyb a ariannwyd gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, yn ogystal ag ar ddatblygiadau mewn polisi ac ymarfer rheoleiddio digidol.

Ers mis Gorffennaf 2024, wrth i'r Senedd newydd ddechrau, rydym wedi ymgysylltu â Chadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin, yn ogystal â Chadeiryddion Grwpiau Seneddol Hollbleidiol sy'n canolbwyntio ar dechnolegau digidol allweddol. Ar ben hynny, fe wnaethom ddangos gwaith y Fforwm i Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol yng Nogledd Iwerddon a rhoi'r prif anerchiad yn nigwyddiad eFforwm San Steffan ar 'Blaenoriaethau ar gyfer polisi a rheoleiddio deallusrwydd artiffisial yn y DU'.

Gan fod deallusrwydd artiffisial a thechnolegau digidol yn berthnasol i gylchoedd gwaith llawer o reoleiddwyr yn y DU, mae hyn wedi creu pcedi dwfn o wybodaeth a sgiliau ar draws cymuned y rheoleiddwyr. Er mwyn manteisio ar y sgiliau a'r profiadau gwerthfawr hyn, mae'r Fforwm wedi parhau â'i ymrwymiad i gydweithio â rheoleiddwyr nad ydynt yn aelodau o'r Fforwm, drwy drafodaethau parhaus a chyfraniad uniongyrchol yng ngweithgareddau'r Fforwm.

Rydym wedi elwa o gyfranogiad Banc Lloegr, Ofgem a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ein ffrydiau gwaith ar ddeallusrwydd artiffisial. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyfrannu at gyfres gweminarau uwchsgilio mewnol y Fforwm. Rydym wedi ymgysylltu'n weithredol ag amrywiol reoleiddwyr eraill drwy ein gwaith, gan gynnwys y Rheoleiddiwr Systemau Talu, Ofgem a'r Comisiwn Etholiadol.

Gan fod y Fforwm yn awyddus i fwrw ymlaen â'r gwaith o feddwl am wasanaethau arloesi traws-reoleiddiol, ym mis Ebrill 2025 fe wnaethom gynnal gweminar i reoleiddwyr a gweithwyr y llywodraeth, gan ddangos gwasanaethau arloesi sefydledig a ddarperir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MRHA) yn ogystal â chyflwyniad ar flychau tywod deallusrwydd artiffisial traws-reoleiddiol.

Mae'r Fforwm wedi parhau i gynnal cyfarfodydd bwrdd crwn rheoleiddiol chwarterol gyda grŵp o 13 o gyrff rheoleiddio nad ydynt yn aelodau.<sup>7</sup> Roedd y pynciau a drafodwyd eleni yn cynnwys technolegau goruchwylio, dulliau o lywodraethu deallusrwydd artiffisial a mewnwleidiadau ar ddatblygiadau deddfwriaethol a pholisi rheoleiddio.

Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd ein Prif Swyddog Gweithredol y Fforwm i Gadeiryddion cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU. Ers hynny, rydym wedi cydweithio â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i lansio ein Cynllun Mentora Sgiliau Digidol.

## Ymgysylltu Rhyngwladol

Yn rhyngwladol, mae'r diddordeb mewn modelau cydweithio rheoleiddiol wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda rheoleiddwyr o awdurdodaethau yn Ewrop, fel Ffrainc, Portiwgal a'r Almaen, yn ogystal â ledled y byd fel De Affrica, Mecsico, yr Ariannin, Brasil, Awstralia a Singapore. Rydym wedi rhannu ein profiadau o gydweithredu rheoleiddiol wrth iddynt ddatblygu eu modelau cydweithredol eu hunain, ac rydym wedi rhannu ein safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â chylchoedd gwaith rheoleiddio fel y rheini yn yr adroddiad hwn.

Sefydlwyd ein Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (INDRC) yn 2023 gyda'r nod o feithrin trafodaethau rhwng rheoleiddwyr rhyngwladol ar faterion cydlyniant ar draws cyfundrefnau digidol, a chasglu gwybodaeth am sut mae awdurdodaethau tramor yn mynd i'r afael â chydlyniaeth a chydweithrediad rheoleiddiol domestig. Mae wedi parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Mae ei drafodaethau'n cwmpasu sgiliau a galluoedd digidol, arloesedd, deallusrwydd artiffisial, technolegau datblygol a chyfryngau synthetig.

Un o'r uchafbwyntiau oedd y gweithdy rhyngwladol ym Mharis ym mis Tachwedd 2024 ar heriau cydweithio traws-reoleiddiol, a gynhaliwyd gennym ar y cyd â'n partneriaid y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

---

<sup>7</sup> Yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu, Bwrdd Ardystio Ffilmiau Prydain, Banc Lloegr, y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Comisiwn Etholiadol, y Comisiwn Hapchwarae, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, y Swyddfa Eiddo Deallusol, y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, y Rheoleiddiwr Systemau Talu, Impress, y Cyngor Adroddiadau Ariannol

Roedd dros 300 o bobl yn y digwyddiad a oedd yn cynnwys aelodau o'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac arbenigwyr rhyngwladol ar ryng-gysylltiad cyfundrefnau rheoleiddio. Yn ogystal â bod yn gyfle i rannu arferion da ar ffurfiau o gydweithio rheoleiddiol, roedd y trafodaethau'n trin ac yn trafod materion traws-reoleiddiol sy'n gyffredin rhwng awdurdodaethau. Fe wnaethom gyhoeddi [datganiad ar y cyd](#) ar ôl y digwyddiad, lle penderfynodd aelodau'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol i barhau â'u deialog barhaus ar rannu gwybodaeth, a'u cydweithrediad ymarferol ar faterion trawsbynciol a meysydd sy'n dod i'r amlwg sy'n peri pryder o ran rheoleiddio.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn siarad mewn 11 o ddigwyddiadau rhyngwladol, gan ymgysylltu â chymunedau ar bum cyfandir sy'n cwmpasu cylchoedd gwaith ein rheoleiddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Cynhadledd Flynyddol y Sefydliad Cyfathrebiadau Rhyngwladol (IIC) yn Asia, Cynhadledd Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial IAPP yn Ewrop, a rhannu ein profiadau o gydweithio yn lansiad Fforwm Rheoleiddio Digidol De Affrica.

Mae gwaith y Fforwm yn parhau i gael dylanwad ac effaith yn rhyngwladol. Er enghraifft, mae cynnig y Goruchwyliwr Diogelu Data Ewropeaidd (EDPS) ar gyfer menter 'Digital Clearinghouse 2.0', gyda'r nod o hwyluso cydweithrediad traws-reoleiddiol rhwng sefydliadau'r UE, wedi cael ei ysbrydoli gan y Fforwm, gan ddweud bod 'y Fforwm yn rhoi arwyddion o arferion da y gallai mentrau sy'n ceisio meithrin cydweithrediad traws-reoleiddiol amlochrog eu hystyried'.<sup>8</sup>

---

8 [www.edps.europa.eu/system/files/2025-01/towards\\_a\\_digital\\_clearinghouse\\_2\\_0\\_january\\_2025\\_en\\_0.pdf](http://www.edps.europa.eu/system/files/2025-01/towards_a_digital_clearinghouse_2_0_january_2025_en_0.pdf)

# Casgliad

Dros y cyfnod 2024/25, mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol wedi cymryd camau breision drwy weithredu pob agwedd ar ei weledigaeth tair blynedd. Drwy gysoni ymdrechion ar draws y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ohono, mae'r Fforwm yn mynd i'r afael yn effeithiol â heriau amlochrog y dirwedd ddigidol. Wrth i'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm fynd rhagddynt i weithredu cylchoedd gwaith statudol a dulliau gweithredu strategol newydd sy'n ymwneud â thechnolegau digidol, mae'r cydweithio rhyngddynt wedi bod yn bwysicach nag erioed.

Un llwyddiant amlwg fu sefydlu'r Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol. Mae'r cynllun hwn yn tanlinellu ymrwymiad y Fforwm i alluogi arloesedd ar yr un pryd â sicrhau cydymffurfedd rheoleiddiol a diogelu defnyddwyr. Mae'r ddealltwriaeth a gafwyd o anghenion a disgwyliadau rheoleiddiol y gymuned arloesi o fudd i'r holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm.

Drwy ymchwil ar y cyd ac eiriolaeth polisi, mae'r Fforwm wedi dylanwadu ar arferion y diwydiant ac wedi cyfrannu at lywio cyfeiriad y sectorau hyn yn y dyfodol. Mae cyhoeddiadau ar dechnolegau ymgolli, cyfrifiadura cwantwm, a sicrwydd deallusrwydd artiffisial wedi cadarnhau rôl y Fforwm ymhellach o ran arwain safonau ac arferion gorau'r diwydiant digidol.

Mae ymgysylltu â'r Senedd, cyrff y llywodraeth, rhanddeiliaid y diwydiant a grwpiau defnyddwyr wedi bod yn gonglfaen i strategaeth y Fforwm. Ar ben hynny, drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau uchel eu proffil yn y diwydiant, mae'r Fforwm wedi sicrhau bod ei ddull rheoleiddio yn dal yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn ymatebol i'r ecosystem ddigidol sy'n esblygu.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Fforwm yn barod i adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd yn 2024/25. Gan ganolbwyntio ar ddyfnhau cydweithio rheoleiddiol ac ehangu ei rwydwaith o randdeiliaid, nod y Fforwm yw parhau i hwyluso twf yn y sector digidol gan fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r niwed posibl. Bydd ymrwymiad parhaus y Fforwm i fframwaith rheoleiddio cydlynol yn allweddol i ddelio â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau yn y dirwedd ddigidol sy'n esblygu'n gyflym.



